# GORCHMYNION ARBROFOL 2026
# (BRUNSWICK ROAD, BWCLE) 2026

## DATGANIAD O'R RHESYMAU DROS LUNIO'R GORCHMYNION ARBROFOL


Ar 8 Medi 2026, gwnaeth Cyngor Sir y Fflint Orchmynion Arbrofol i:

1) Gyflwyno, ar sail arbrofol, baeau aros cyfyngedig ‘20 munud, dim dychwelyd o fewn 1 awr’ mewn amrywiol leoliadau ar ddwy ochr Brunswick Road, Bwcle.

2) Caniatáu, ar sail arbrofol, i unrhyw gerbyd fynd o'i gyffordd â B5127 Mill Lane/Padeswood Road North wrth The Cross i'r gyffordd â Precinct Way.

Effaith y Gorchmynion Arbrofol yw caniatáu i draffig gael mynediad i Brunswick Road a darparu baeau parcio am amser cyfyngedig, er mwyn hybu masnach leol.

Dyddiedig 11 Medi 2026



Katie Wilby,
Prif Swyddog
(Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth),
Depo Alltami,
Ffordd yr Wyddgrug,
Alltami,
Yr Wyddgrug,
CH7 6LG.

## Hysbysiad o Wneud

# GORCHYMYN ARBROFOL CYNGOR SIR Y FFLINT (BRUNSWICK ROAD, BWCLE) 2026

Rhoddir rhybudd drwy hyn bod Cyngor Sir y Fflint (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel “y Cyngor), ar 8 Medi 2026, wrth arfer ei bwerau o dan y Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 (y cyfeirir ati o hyn ymlaen fel “Deddf 1984”), o dan Adrannau 9 a 10 a’r holl bwerau galluogi eraill, wedi gwneud Gorchymyn Arbrofol sydd yn:-

1. Caniatáu i unrhyw gerbyd deithio ar hyd y rhan o’r ffordd a nodir yn Atodlen o'r Hysbysiad hwn.

Caiff Erthyglau 2 a 3 Gorchymyn Rheoleiddio Traffig Cyngor Sir y Fflint (Brunswick Road, Bwcle) 2000 eu hatal drwy hyn dros gyfnod y Gorchymyn Arbrofol.

Effaith y Gorchymyn Arbrofol yw caniatáu i gerbydau gael mynediad at Brunswick Road i roi hwb i fasnach leol.

**ATODLEN**

**Brunswick Road, Bwcle**
O’i chyffordd â’r B5127 Mill Lane/Padeswood Road gogledd, yn y groesffordd i’r gyffordd â Precinct Way

Bydd y Gorchymyn Arbrofol yn dod i rym ar 21 Medi 2026 am gyfnod o 18 mis. Gellir gweld copi o’r Gorchymyn, cynlluniau’n dangos y ffordd y mae’r cynnig yn effeithio arni, ynghyd â datganiad o resymau’r Cyngor dros wneud y Gorchymyn, yn Sir y Fflint yn Cysylltu, Llyfrgell Bwcle, y Ganolfan Siopa, Bwcle, Sir y Fflint, CH7 2EF yn ystod oriau agor neu fe allwch eu gweld ar ein gwefan www.siryffint.gov.uk > Preswylwyr > Ffyrdd, Strydoedd a Theithio > Gorchmynion Rheoleiddio Traffig neu fe allwch wneud cais am gopi o’r dogfennau drwy e-bostio transportstrategyconsultation@flintshire.gov.uk neu drwy ffonio 01352701234.

Bydd y Cyngor yn ystyried, maes o law, a ddylai darpariaethau’r Gorchymyn barhau mewn grym am gyfnod amhenodol. O fewn cyfnod o 6 mis wedi i’r Gorchymyn ddod i rym, neu os yw’r Gorchymyn yn cael ei addasu neu ei amrywio wedi hynny, ers i’r addasiad neu’r amrywiad hwnnw ddod i rym (pa un bynnag yw’r hwyraf), gall unrhyw un wrthwynebu gwneud y Gorchymyn at bwrpas parhad amhenodol o’r fath.

Dylid anfon unrhyw wrthwynebiadau i'r Gorchymyn, a’r sail ar gyfer gwrthwynebu, yn ysgrifenedig at yr unigolyn isod o fewn chwe mis i’r dyddiad y bydd y Gorchymyn hwn wedi dod i rym, neu’r dyddiad y bydd unrhyw amrywiad neu addasiad neu’r amrywiad neu’r addasiad diweddaraf wedi dod i rym, gan nodi cyfeirnod SS/TRO/JB/EO-BR/2026.

Os yw’n ymddangos yn hanfodol i’r Cyngor ei bod yn angenrheidiol er budd symud traffig mewn modd cyflym, cyfleus neu ddiogel, neu i ddarparu cyfleusterau parcio addas a digonol ar y briffordd neu ar gyfer cadw neu wella amwynderau’r ardal mae unrhyw ddarn o ffordd yr effeithir arno gan y Gorchymyn yn rhedeg drwyddi, yna gall swyddog enwebedig y Cyngor, isod, addasu neu atal y Gorchymyn neu ei ddarpariaethau.

Gall unrhyw un sy'n dymuno cwestiynu dilysrwydd y Gorchymyn Arbrofol (a wnaed ar 8 Medi 2026) neu unrhyw ddarpariaethau sydd ynddo, ar y sail nad ydynt o fewn y pwerau a roddwyd gan y ddeddfwriaeth

berthnasol, neu ar y sail na chydymffurfiwyd â gofynion y fath ddeddfwriaeth mewn perthynas â’r Gorchymyn, wneud cais i’r Uchel Lys o fewn chwe wythnos o 8 Medi 2026 i'r diben hwnnw.

Dyddiedig 11 Medi 2026

Katie Wilby,
Prif Swyddog
(Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth),
Depo Alltami,
Ffordd yr Wyddgrug,
Alltami,
Yr Wyddgrug,
CH7 6LG.

**DYDDIEDIG** **08 MEDI** **2026**

---

# GORCHYMYN ARBROFOL CYNGOR SIR Y FFLINT

# (BRUNSWICK ROAD, BWCLE)

# 2026

---

**Katie Wilby,**
**Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth),**
**Depo Alltami,**
**Ffordd yr Wyddgrug,**
**Alltami,**
**yr Wyddgrug.**
**CH7 6LG**

**GORCHYMYN ARBROFOL CYNGOR SIR Y FFLINT (BRUNSWICK ROAD, BWCLE) 2026**

Mae Cyngor Sir y Fflint wrth ddefnyddio'i bwerau dan Adran 9 a 10 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel "Deddf 1984") fel y'i diwygiwyd a phob pŵer galluogi arall ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu yn unol â Rhan III Atodlen 9 Deddf Gorchymyn 1984, yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

1. Ac eithrio lle nodir yn wahanol, mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at Erthygl neu Atodlen â rhif, yn gyfeiriad at yr Erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

2. Gan ddod i rym ar y dyddiad a amlinellir yn Erthygl 4, caiff Gorchymyn Rheoleiddio Traffig Cyngor Sir y Fflint (Brunswick Road, Bwcle) 2000 ei ddiwygio i'r graddau y mae'n ymwneud â'r ffordd a amlinellir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

3. Caiff Erthyglau 2 a 3 Gorchymyn Rheoleiddio Traffig Cyngor Sir y Fflint (Brunswick Road, Bwcle) 2000 eu hatal drwy hyn dros gyfnod y Gorchymyn Arbrofol.

4. Bydd y Gorchymyn bellach yn caniatáu i unrhyw gerbyd modur gael mynediad at y ffordd a nodir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

5. Daw'r Gorchymyn i rym ar 21 Medi 2026 ac fe'i hadnabyddir fel Gorchymyn Arbrofol Cyngor Sir y Fflint (Brunswick Road, Bwcle) 2026.

6. Bydd gwaharddiadau a chyfyngiadau'r Gorchymyn yn ychwanegol at, ac nid yn rhanddirymiad i unrhyw gyfyngiad neu ofyniad a nodir mewn unrhyw reoliad a wnaed neu sy'n cael effaith, fel pe baent wedi eu gwneud dan Ddeddf 1984 neu unrhyw ddeddfiad arall.

7. Bydd Deddf Dehongli 1978 yn berthnasol ar gyfer dehongli'r Gorchymyn hwn fel y mae'n berthnasol i ddehongli Deddf Seneddol.

8. Rhaid i'r Gorchymyn hwn barhau mewn grym am gyfnod nad yw'n hwy na 18 mis o'r

dyddiad a bennir yn Erthygl 5 o'r Gorchymyn hwn neu hyd nes y caiff ei wneud yn barhaol.

9. Yn unol ag adran 10(2) Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, gall y Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant (os bydd yn ymddangos i'r swyddog ei bod yn hanfodol er mwyn i draffig symud yn ddiogel, cyfleus a hwylus, neu ar gyfer darparu cyfleusterau parcio addas a digonol ar y briffordd, neu ar gyfer cadw neu wella amwynderau'r ardal y bydd y Gorchymyn hwn yn rhedeg drwyddi, addasu neu atal y Gorchymyn neu unrhyw ddarpariaeth ynddo.

## ATODLEN

**Brunswick Road, Bwcle**

O'i chyffordd â'r B5127 Mill Lane/Padeswood Road gogledd, yn y groesffordd i'r gyffordd â Precinct Way.

219962


**Gosodwyd SÊL GYFFREDIN** )
**CYNGOR SIR Y FFLINT** )
at hyn )
ar yr diwrnod 8af hwn o fis Medi 2026 )
Ym mhresenoldeb:- )

**Y CADEIRYDD** M Buckley

~~**RHEOLWR Y GWASANAETHAU CYFREITHIOL**~~

**PRIF SWYDDOG LLYWODRAETHU**

~~**UWCH GYFREITHIWR**~~




**KEY**

Dirymu y Gwaharddiad ar Yrru

Revocation of Prohibition of Driving.

| PRELIMINARY | APPROVAL | CONSTRUCTION |
|---|---|---|

| Ph/Rev. | Revision Details | Rev.by | Chk.by | Date |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| | | | | |

CYNGOR Sir y Fflint
Flintshire COUNTY COUNCIL

Katie Wilby
Chief Officer (Streetscene and Transportation).
Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryda Thafnidiaeth).
6NF

StreetScene

Alltami Depot, Alltami, Mold, CH7 6LG
Depo Alltami, Alltami, Yr Wyddgrug. CH7 6LG

Project:

# Brunswick Road, Buckley Revocation of Prohibition of Driving

## General Arrangement

(Sheet 1 of 1)

Flintshire County Council - Environment Directorate , County Hal l , Mold CH7 6NF

| | | | |
|---|---|---|---|
| Contact Name: Nick Williams | | Telephone: 01352 704642 | |
| Drawn by: Nick Williams | | Fax No: 01352 70 | |
| Checked by: Lee Shone | | Date: Sept 2026 | Sheet 1 of 1 |
| Scales at A0: 1:NTS | Drawing No: HT/26/BRB/201 | | Phase/Rev: C1 |

BASED UPON VARIOUS ORDNANCE SURVEY MAPS WITH THE PERMISSION OF THE CONTROLLER OF HM STATIONARY OFFICE. CROWN COPYRIGHT RESERVED LICENSE NUMBER LA 100023386L FLINTSHIRE COUNTY COUNCIL, COUNTY HALL, MOLD.




KEY

Dirymu y Gwaharddiad ar Yrru

Revocation of Prohibition of Driving.

PRELIMINARY | APPROVAL | CONSTRUCTION

| Pb/Rev. | Revision Details | Rev.by | Chk by | Date |
|---|---|---|---|---|

CYNGOR Sir y Fflint Flintshire COUNTY COUNCIL

StreetScene

Brunswick Road, Buckley
Revocation of Prohibition of Driving

General Arrangement

(Sheet 1 of 1)

Contact Name: Nick Williams | Telephone: 01352 704642

Drawn by: Nick Williams | Fax No: 01352 70

Checked by: Lee Shone | Date: Sept 2026 | Sheet 1 of 1

Scales at A0: 1:NTS | Drawing No: HT/26/BRB/201 | Phase/Rev: C1